



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Preswyl Gwynfa

**Cartref Preswyl Gwynfa
Ffordd y Gogledd
Caernarfon
LL55 1BE**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/03/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cartref Preswyl Gwynfa

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Cartref Preswyl Gwynfa
Lleuedd cofrestredig	23
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	14 Mehefin 2022
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y cymorth y maent yn ei gael yng nghartref Gwynfa ac maent yn dweud y cânt eu cefnogi gan staff parchus a chyfeillgar sy'n eu hadnabod yn dda. Gwelsom y staff gofal yn rhyngweithio ac yn rhoi sicrwydd amserol a chadarnhaol wrth gefnogi'r bobl i wneud penderfyniadau am eu bywydau o ddydd i ddydd ar yr un pryd. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar y bobl, yn adlewyrchu anghenion y bobl a chânt eu hadolygu a'u newid yn rheolaidd yn unol â hynny. Mae gweithgareddau ar gael yn y cartref ac mae'r staff yn cefnogi'r bobl i fynd i'r lleoliadau y tu allan i'r cartref lle bo angen.

Mae'r staff yn dweud eu bod yn teimlo y cânt eu cefnogi'n dda gan y Tîm Rheoli. Mae trefniadau llywodraethu addas ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd er mwyn goruchwyllo'r ffordd y caiff y cartref ei reoli ac mae'n casglu barn y bobl a'u perthnasau er mwyn gwella a datblygu'r gwasanaeth. Caiff y safbwyntiau hyn eu hadlewyrchu yn yr adroddiadau ar ansawdd y gofal.

Mae'r maes i'w wella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â'r adolygiadau o ansawdd y gofal wedi cael eu bodloni. Mae'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â'r wybodaeth am y gwasanaeth, meddyginiaeth a pholisïau a gweithdrefnau diogelu yn parhau ar waith. Rydym wedi tynnu sylw at faes newydd i'w wella mewn perthynas â chefnogi a datblygu staff.

Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac maent yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt ac yr ystyrir eu safbwyntiau; maent yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r staff gofal yn gweithio o'r cynlluniau personol sydd wedi'u cyd-ysgrifennu â'r person ac maent yn darparu ar gyfer dewisiadau'r bobl. Mae'r bobl yn dweud eu bod yn hoffi byw yn y cartref, yn gallu gwneud dewisiadau ar sut i fyw eu bywydau o ddydd i ddydd ac yn rhan o'r gwaith o wella a datblygu'r gwasanaeth. Gwelsom fod y staff gofal yn gwrando ar ddymuniadau'r bobl am y bwyd sydd ar gael. Caiff clychau galw eu hateb mewn modd amserol. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u dodrefnu'n dda. Mae'r cofnodion gofal yn rhoi'r cyfarwyddiadau sydd eu hangen ar y staff gofal i gefnogi'r bobl yn gywir a chynhelir yr adolygiadau yn unol â'r rheoliadau. Mae'r staff yn darparu gofal amserol a rhagweithiol ac yn adnabod y preswylwyr yn dda, yn eu cefnogi i symud o amgylch y cartref yn ddiogel. Mae'r bobl yn cael ymwelwyr i'r cartref yn rheolaidd ac mae'r cydberthnasau rhwng y bobl eraill a'r cartref a'r staff gofal yn dda. Rhaid rhoi canllaw ysgrifenedig ar waith er mwyn i'r bobl wybod beth i'w ddisgwyl gan y gwasanaeth.

Mae gweithgareddau ar gael yn y cartref ac mae'r rhain yn cael eu hwyluso gan y staff yn y cartref. Mae'r bobl wedi bod i'r sinema leol lle mae ffilmiau'n cael eu dangos sy'n gyfeillgar i bobl â dementia ac maent wedi ymweld â'r oriel leol. Mae bwrdd 'cornel prysur' yn y cartref â lluniau o weithgareddau sydd wedi cael eu cynnal ac mae gweithgareddau ar gael i'r bobl eu cwblhau'n annibynnol os ydynt yn dymuno. Caiff y bobl eu cefnogi i ymarfer eu crefydd wrth i Gapel Seilo ymweld â'r cartref yn wythnosol. Mae'r gwasanaeth yn darparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg, ac mae llawer o'r preswylwyr a'r staff gofal yn siarad Cymraeg.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaethoherwydd bod y staff gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu dilyn. Fodd bynnag mae angen addasu'r rhain i adlewyrchu deddfwriaeth a chanllawiau Cymru. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal a gwella eu hiechyd a'u llesiant drwy allu cael gofal a chynghor arbenigol pan fydd eu hangen arnynt. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud mewn modd amserol i'r gwasanaethau arbenigol, gan sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir, cyn gynted â phosibl. Mae'r staff gofal a'r rheolwr yn rhagweithiol ac yn cydweithio ar y cyd ag asiantaethau cymorth. Mae angen gwneud gwelliannau i'r systemau meddyginiaeth ac mae angen hyfforddiant staff.

Mae cynllun y cartref yn helpu'r bobl i gyflawni safon dda o lesiant. Caiff y bobl eu hannog i fod yn annibynnol ac i symud a gallant fynd i'r holl ystafelloedd yn y cartref yn ddiogel. Mae'r strategaethau ar gyfer lleihau'r risg i'r bobl wrth iddynt symud o amgylch y cartref yn ddigonol ac mae'r person â chyfrifoldeb wedi nodi peryglon posibl ac wedi cymryd camau i leihau'r risgiau i'r bobl.

Gofal a Chymorth

Gall y bobl deimlo'n hyderus bod gan ddarparwr y gwasanaeth gynllun cywir a chyfredol ar gyfer sut y dylid diwallu eu hanghenion gofal a chymorth ac mae'r bobl yn gwneud dewisiadau eu hunain bob dydd megis eu prydau, y dillad yr hoffent eu gwisgo a phryd maent am godi o'u gwely yn y bore. Mae'r cynlluniau personol wedi'u personoli, yn gyfredol, yn gywir ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn cynnwys gwybodaeth fanwl megis canlyniadau unigol, eu hoff bethau a'u cas bethau a'u dewisiadau. Cynhelir asesiadau cyn derbyn cyn i'r bobl symud i mewn i'r cartref a'r rheolwr sy'n eu cwblhau. Caiff dogfennau eu cwblhau gan ddweud wrth y staff am hanes y bobl, pam eu bod wedi dod i'r cartref a gwybodaeth bwysig am eu cyflyrau meddygol a'u halergeddau. Mae asesiadau risg cadarn iawn ar waith a chânt eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r bobl yn cael gofal yn unol â'u cynlluniau personol a'u hasesiadau risg ac mae'r staff gofal yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y cyfnod newid shifftiau dyddiol. Mae'r bobl yn dweud bod y staff yn gyfeillgar ac yn ofalgar a gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol a chefnogol. Mae'r amseroedd bwyd yn gymdeithasol, mae'r bobl yn cael dewis yr hyn y maent am ei fwyta, yn gallu cael mwy os ydynt yn dymuno ac roedd y bwyd wedi'i gyflwyno'n dda ac yn edrych yn flasus. Gwnaed sgons cartref ar y diwrnod y gwnaethom ymweld â nhw, a gwelsom fod dewisiadau a gofynion deietegol yn cael eu hystyried yn y gegin. Gwnaethom edrych ar gyfarpar codi a chario priodol yn cael ei ddefnyddio gan y staff, yn unol â'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg. Mae'r cofnodion yn dangos bod cyngor a chymorth arbenigol ar gael i'r bobl gan weithwyr iechyd proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ac mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r cyngor proffesiynol. Mae'r polisi diogelu sydd ar waith ar gyfer y cartref yn dal i gyfeirio at y ddeddfwriaeth yn Lloegr yn hytrach na'r ddeddfwriaeth yng Nghymru. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Gall y bobl fod yn fodlon bod y gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylan ac yn rheoli risg o heintiau oherwydd mae'r arferion atal a rheoli heintiau yn y cartref yn dda ac yn cadw'r bobl yn ddiogel. Mae angen gwella rhoi a storio meddyginiaethau yn y cartref. Er bod yr asesiadau hyfforddiant ac asesiadau cymhwysedd yn cael eu cwblhau ar gyfer rhoi meddyginiaeth, gwelsom fylchau yn y siartiau MAR heb esboniad na rhesymau ar gyfer rhoi meddyginiaeth fel y bo'n ofynnol (PRN). Caiff archwiliadau meddyginiaeth eu cwblhau bob tri mis ac felly nid oeddent yn nodi'r materion hyn a nodwyd yn yr arolygiad. Gwnaethom siarad â'r rheolwr am hyn a bellach mae archwiliadau'n cael eu cynnal bob mis. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae darparwr y gwasanaeth yn buddsoddi yng ngwaith addurno a chynnal a chadw'r cartref er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y bobl. Mae'r décor yn y cartref yn gartrefol ac yn gynnes. Mae'r ystafelloedd a'r ardaloedd cymunedol mewn cyflwr da. Mae lolfeydd ac ystafelloedd bwyta i'r bobl eu defnyddio a chymdeithasu ynddynt yn ôl eu dymuniad, a gall y bobl gael preifatrwydd yn eu hystafelloedd eu hunain os byddant am wneud hynny.

Mae ystafelloedd y bobl yn lân, yn daclus ac wedi'u personoli i'w chwaeth eu hunain gyda'u heiddo. Caiff cyfarpar codi a chario ei storio'n hygyrch, ond yn ddiogel allan o'r ffordd er mwyn atal pob rhag baglu a disgyn. Mae'r bobl yn dweud eu bod yn hoffi eu hystafelloedd gwely ac y cawsant ddewis sut y cawsant eu haddurno pan wnaethant symud i mewn i'r cartref. Mae'r bobl yn mynd i mewn i'r cartref drwy'r drws ffrynt ac mae'r ymwelwyr yn gorfod llofnodi a dangos manylion adnabod wrth gyrraedd. Gwelsom staff glanhau o amgylch yr adeilad drwy gydol ein hymweliad ac roedd pob ardal yn lân ac yn daclus. Mae gan ddarparwr y gwasanaeth bolisïau atal a rheoli heintiau, gyda mesurau da ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel.

Gall y bobl fod yn hyderus bod darparwr y gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Mae'r cofnodion yn dangos bod archwiliadau iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal, ac ymdrinnir â'r gweithredoedd a nodwyd yn gyflym a chaiff hyn ei fonitro gan y tîm rheoli a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae gan y cartref y sgôr bwyd uchaf y gellir ei gael ac mae gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd ar gyfer diogelwch tân, diogelwch dŵr a chyfarpar yn cael eu cwblhau. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gwiriadau cynnal a chadw, diogelwch a gwasanaethu gofynnol ar gyfer y lifft a'r systemau nwy a thrydan yn gyfredol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn hyderus bod gan ddarparwr y gwasanaeth systemau ar gyfer llywodraethu a goruchwyllo'r gwasanaeth sydd ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o ardaloedd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth i arolygu'r eiddo, gwirio cofnodion a chasglu barn y bobl a'r staff ac mae'r adroddiadau ymweld yn dangos agweddau ar y ffordd roedd y gwasanaeth yn cael ei redeg o ddydd i ddydd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn monitro canlyniadau'r camau gweithredu a nodwyd yn ystod ymweliadau blaenorol. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheoli o feysydd allweddol a chynllunio camau gweithredu o ganlyniad i hynny. Caiff arolygiad o ansawdd y gofal ei gynnal gan y cartref bob chwe mis a chafodd canlyniadau'r arolygon hyn eu hystyried gan yr Unigolyn Cyfrifol o ganlyniad. Cynhelir cyfarfodydd ar gyfer y preswylwyr i roi adborth i'r rheolwyr ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn casglu adborth yn uniongyrchol gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r bobl yn dweud y gallant siarad â'r rheolwr am y newidiadau i'w gofal neu am unrhyw faterion eraill sydd ganddynt, a chymerir camau. Mae'r darparwr wedi cyflwyno adroddiad blynyddol fel sy'n ofynnol gan y rheoliad.

Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod canllaw ysgrifenedig am y gwasanaeth ar gael i'r bobl. Golyga hyn na all y bobl a'u perthnasau fod yn siŵr bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r ffordd mae'r gwasanaeth yn gweithredu wrth ddarparu gofal a chymorth, neu sut i godi pryderon neu wneud cwyn os nad ydynt yn fodlon. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Gall y bobl fod yn fodlon y byddant yn cael eu cefnogi gan wasanaeth sydd â niferoedd priodol o staff addas. Mae'r cofnodion yn dangos bod gan y rheolwr niferoedd addas o staff ar bob shift i gefnogi anghenion y bobl ac mae aelodau newydd o staff yn cyflawni gwiriadau fetio cyn dechrau gweithio yn y cartref yn ogystal â chael cyfnod sefydlu sy'n benodol i'w rôl. Mae'r staff gofal wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, y rheoleiddiwr gweithlu, neu wrthi'n gwneud hynny. Mae'r staff yn cael arfarniadau blynyddol a chyfarfodydd goruchwyllo un i un gyda'r rheolwr ac yn dweud eu bod yn teimlo y cânt gefnogaeth dda ganddynt. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym, *'I feel like I can talk to the manager about anything, it is a lovely place to work.'* Mae gan y staff gofal y wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau ar y cyfan i ddarparu'r lefelau o ofal a chymorth sydd eu hangen i alluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom nad oes gan y staff gofal yr hyfforddiant priodol ac arbenigol bob amser ac nid yw'r hyfforddiant a gynigir yn unol â datganiad o ddiben y cartref. Er y caiff y cofnodion hyfforddiant eu hadolygu mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchiad cywir o gydymffurfio â gofynion hyfforddiant. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Gall y bobl fod yn hyderus bod darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio trefniadau ariannol y gwasanaeth a'r buddsoddiad ynddo, er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn cefnogi'r bobl i fod yn ddiogel ac i gyflawni eu canlyniadau personol.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
36	Nid yw'r gwasanaeth yn darparu hyfforddiant yn unol â'i ddatganiad o ddiben ei hun, rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod hyfforddiant craidd ac arbenigol yn cael ei ddarparu i'r staff.	Newydd
19	Nid yw'r darparwr wedi paratoi canllaw ysgrifenedig i'r gwasanaeth.	Heb Gyflawni
58	Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod yr arferion meddyginiaeth, yn benodol y gwaith o gofnodi a chynnal archwiliadau meddyginiaeth, yn cael ei ddarparu yn unol â'i bolisi a'i weithdrefnau.	Heb Gyflawni
27	Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod polisi a gweithdrefnau diogelu y gwasanaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, y canllawiau cenedlaethol a'r gweithdrefnau diogelu lleol ar gyfer oedolion.	Heb Gyflawni
80	Nid oes gan y darparwr drefniadau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau y ceir adborth gan y bobl sy'n byw yn y cartref, eu cynrychiolwyr a'r staff a gyflogir yn y gwasanaeth. Rhaid dadansoddi'r adborth hwn a'i gynnwys yn yr adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal. Rhaid adolygu ansawdd y gofal a'r cymorth mor aml ag sydd angen ond dylid gwneud hyn bob chwe mis o leiaf.	Cyflawnwyd

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 23/04/2024